# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD GWENER, 26AIN IONAWR, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 19 Ionawr 2024)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Linda Ann Jones

Huw Rowlands

Elfed Williams (Cadeirydd)

Edgar Wyn Owen (Eilydd)

## Aelod Lleol

Y Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO — 5 - 30

B&M, Stryd Madog, Porthmadog, LL49 9BU

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS - BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **26 IONAWR 2024** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – B&M, PORTHMADOG** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

1. **CAIS A DDERBYNIWYD**

2. Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer B&M, Stryd Madog, Porthmadog, LL49 9BU, gan B&M Retail Limited. Mae B&M Retail a ffurfiwyd ym 1976 bellach yn gweithredu cadwyn o dros 500 o siopau ledled Lloegr, Cymru a'r Alban. Mae'r siopau'n cynnig ystod eang o nwyddau cartref, cymysgedd o fwyd a chaledwedd, sydd o ansawdd ond am brisiau fforddiadwy.

2.1 Mae'r ymgeisydd yn gofyn am yr hawl i werthu alcohol i gwsmeriaid er mwyn ei yfed oddi ar yr eiddo.

2.2 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

2.3 Fe dderbyniwyd sylwadau ar y cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

**Oriau Agor / Opening Hours:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 07:00 | - | 23:00 |
| Dydd Llun/Monday | 07:00 | - | 23:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 07:00 | - | 23:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 07:00 | - | 23:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 07:00 | - | 23:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 07:00 | - | 23:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 07:00 | - | 23:00 |

**Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:**

**Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 07:00 | - | 23:00 |
| Dydd Llun/Monday | 07:00 | - | 23:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 07:00 | - | 23:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 07:00 | - | 23:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 07:00 | - | 23:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 07:00 | - | 23:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 07:00 | - | 23:00 |

3. **Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu**

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol –

- Bydd teledu cylch cyfyng yn cael ei ddarparu ar gyfer yr ardal fasnachu a thiliau arian parod
- Bydd B&M yn cadw mewn cysylltiad a swyddogion yr heddlu ynghylch unrhyw materion yn ymwneud â'r safle
- Ni fydd yr arwynebedd ar gyfer arddangos 'alcohol ar werth' yn fwy na 10% o'r ardal masnachu
- Bydd staff diogelwch dillad plaen yn cael eu cyflogi yn y safle yn ôl y galw angenrheidiol gan Ddeiliad y Drwydded
- Cyfarwyddo staff na ellir gwerthu alcohol i unrhyw berson y credir ei fod yn feddw
- Hysbysiadau i'w harddangos y tu mewn i'r safle yn datgan ei fod yn drosedd i unrhyw berson dan 18 oed i brynu alcohol
- Hysbysiadau i'w harddangos y tu mewn i'r eiddo yn nodi bod polisi Her 25 mewn grym
- Bydd y staff yn gwneud eu gorau glas i atal cwsmeriaid B&M rhag loetran ac achosi niwsans yn yr ardal tu allan i'r siop, a bydd pobl sy'n gwrthod symud yn destun i ymateb i'r Heddlu er mwyn hwyluso gwasgariad diogel

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad .

## 4. <u>YMGYNGHORIAD</u>

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Dim gwrthwynebiad |
| Cynghorwr ardal Porthmadog | Sylwadau |
| Aelod o'r Cyhoedd | Sylwadau |

## 3 Sylwadau ar y cais

3.1 Cyflwynwyd sylwadau ar sail y ffaith fod pryderon am yr oriau a ofynnwyd amdanynt, gan fod gyda'r bwriad o agor y siop o 7yb hyd at 11yh yn ddyddiol.
Roedd pryderon y gallai'r oriau ac ofynnwyd amdano danseilio'r amcanion trwyddedu, yn benodol atal niwsans cyhoeddus.

3. 2 Nododd ymatebydd fod hanes o gwynion sŵn hanesyddol yn gysylltiedig â'r safle o'r 90au, pan agorwyd y siop ar gyfer manwerthu . Fe ofynnwyd i'r Pwyllgor rhoi ystyriaeth i arbed niwsans sŵn, yn enwedig o ystyried fod oriau agor a chau'r siop yn llawer hirach na'r hyn a weithredwyd gan siop Wilko.

## 4 ARGYMHELLIAD

**Yn unol a'r Deddf Drwyddedu 2003, argymhellir fod y Pwyllgor yn ystyried sylwadau yr ymatebwyr , ac ymateb yr ymgeisydd i'r pryderon – ac yn caniatáu'r cais.**